adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

# Cwmpasu'r Dirwedd Adnoddau Addysgol Dwyieithog ar gyfer Adnodd

## Crynodeb Gweithredol o Ganfyddiadau

Ionawr 2024

Ysgrifennwyd gan:
Nick Morgan, Maya Richardson, and Katie Lloyd
Miller Research (UK) Ltd.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Adnodd yn gwmni annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023 i gydlynu a chomisiynu adnoddau addysg ddwyieithog ar gyfer dysgwyr rhwng tair ac 19 oed yng Nghymru. Yn hollbwysig, mae'r gwaith hwn yn digwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru ac ochr yn ochr â datblygu cymwysterau Gwneud i Gymru.

1.2 Yn gynnar yn 2023, comisiynwyd Miller Research a Four Cymru gan Adnodd i gynnal ymchwil ansoddol i ddeall tirwedd yr adnoddau addysg Cymraeg, Saesneg a dwyieithog presennol yng Nghymru yn well, a'r hyn sydd ei angen ar gyfer adnoddau'r dyfodol yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru newydd a chymwysterau diwygiedig.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb gweithredol lefel uchel o brif ganfyddiadau'r ymchwil. Mae'n nodi'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith maes a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid.

## Methodoleg

1.4 Ar gyfer yr ymchwil hwn, cynhaliodd Miller Research bum grŵp ffocws a saith cyfweliad unigol, gan ymgysylltu â 58 o gyfranogwyr yn y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Ymarferwyr Ysgolion Cynradd a Blynyddoedd Cynnar (BC)
- Ymarferwyr Ysgolion Uwchradd ac Addysg Bellach
- Cyhoeddwyr a Chrewyr Cynnwys
- Grwpiau Trydydd Sector ac Eiriolaeth
- Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

1.5 Datblygwyd tri arolwg hefyd i gasglu safbwyntiau gan nifer fwy o ymarferwyr, y rhai sy'n creu cynnwys, rhanddeiliaid ehangach, yn ogystal â dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr. Derbyniodd yr arolygon hyn gyfanswm o 125 o ymatebion cyflawn ychwanegol.

1.6 Cafodd data ansoddol o'r gwaith maes a'r arolwg, a data arolwg meintiol eu casglu a'u dadansoddi'n thematig gan dîm Miller Research. Yna cafodd y canfyddiadau eu syntheseiddio i mewn i adroddiad a'u crynhoi i mewn i'r Crynodeb Gweithredol hwn.

1.7 Yn seiliedig ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, datblygodd yr ymchwilwyr weledigaeth bum rhan ar gyfer Adnodd, a amlinellir yn y graffeg isod.

# Gweledigaeth ar gyfer Adnodd

### CYDLYNU
Cyn belled ag y bo modd, dylai Adnodd fod â golwg gyffredinol ar yr holl adnoddau addysg, comisiynu cysylltiedig a sicrhau ansawdd, ac o anghenion a blaenoriaethau perthnasol. Dylai fapio a / neu helpu i gydlynu ar draws yr ecosystem lle bo modd.

### CYFATHREBU
Dylai Adnodd gyfathrebu ei flaenoriaethau'n rhagweithiol, meithrin cydberthnasau a synergedd â chyrff comisiynu eraill, a bod yn glir ynghylch pwy sy'n marchnata a sicrhau mynediad at adnoddau presennol sydd â sicrwydd ansawdd.

### SICRHAU A DEFNYDDIO ARBENIGEDD
Amlinellu llwybrau ar gyfer cyfranogiad. Sicrhau bod ymarferwyr, arbenigwyr pynciau, a chyrff eiriolaeth yn glir ynghylch eu rôl ac yn cael eu cymell i gyfrannu at brosesau comisiynu a sicrhau ansawdd lle bo'n berthnasol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cwrdd â'r angen.

### YSTYRIED GOLWG TYMOR HWY
Gallai comisiynu pecynnau gwaith mwy/tymor hwy (yn hytrach nag adnoddau ar wahân) ganiatáu i Adnodd fuddsoddi yng ngweithlu creadigol Cymru a darparu cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y mae dirfawr angen amdanynt i grewyr cynnwys llai.

### HYRWYDDO DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG
Bod yn feiddgar wrth hyrwyddo dull "dwyieithog ar unwaith". Hwyluso sicrhau ansawdd cyfieithiadau, darparu canllawiau clir ar lefelau ar gyfer dysgwyr ail iaith a thafodieithoedd. Cefnogi crewyr i gael mynediad at gyfieithwyr ac awduron Cymraeg eu hiaith.

## 2. Canfyddiadau ar Gynnig Adnoddau Addysg Cymru

**2.1** O ran yr adnoddau addysg sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr yng Nghymru, canfuwyd bod adnoddau Cymraeg yn ddiffygiol o ran ansawdd ac amrywiaeth, yn enwedig o gymharu ag adnoddau Saesneg. Galwodd rhanddeiliaid am broses "ddwyieithog ar unwaith" a gwell arweiniad ar ddefnyddio tafodiaith. Nodwyd sawl maes fel rhai sydd angen adnoddau ychwanegol neu adnoddau gwell yn y Gymraeg, gan gynnwys:

- Adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau mathemateg a gwyddoniaeth a TGAU.
- Cyfieithiadau o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer gwahanol dafodieithoedd.
- Deunyddiau addas ar gyfer dysgwyr ail iaith ym mhob grŵp blwyddyn ac ar wahanol lefelau o gynefindra iaith.

**2.2** Er bod y crewyr eisoes yn ymwybodol o'r angen am fwy o adnoddau Cymraeg a dwyieithog a gwell adnoddau, mae'n ymddangos bod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi atgyfnerthu'r galw presennol, gan arwain at ddiddordeb cynyddol mewn darparu adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar ran crewyr cynnwys. Diffyg gallu ac arbenigedd yn y Gymraeg yw'r prif rwystr yma, gyda phryderon am gyllid a phroffidioldeb yng nghyd-destun yr angen am gyfieithiadau Cymraeg.

**2.3** Mae anghenion adnoddau eraill, nawr ac yn y dyfodol, yn cynnwys y canlynol:

- Mwy o adnoddau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig mewn rhai pynciau a meysydd pwnc.
- Adnoddau clir, syml, wedi'u cyflwyno'n dda. Mae ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn gweld adnoddau rhyngweithiol yn arbennig o ddefnyddiol, gyda'r grŵp olaf yn cyfeirio at adnoddau fideo yn benodol. Mae crewyr yn ymwybodol i raddau helaeth o'r anghenion hyn.
- Adnoddau y gellir eu haddasu i'r ardal leol, neu eu dylunio gyda'r cyd-destun lleol mewn golwg, o ystyried pwysigrwydd gosod adnoddau a chynefin yn eu cyd-destun yn y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd yr angen am ymagwedd gytbwys, gan fod yn well gan rai athrawon adnoddau sydd "ar gael yn rhwydd" o ystyried heriau llwyth gwaith.
- Adnoddau wedi'u cynllunio gydag ymarferwyr mewn golwg ac
- Adnoddau sy'n darparu ar gyfer dilyniant dysgu.
- Adnoddau mwy cynhwysol sy'n cynrychioli safbwyntiau amrywiol, a'r cyfan yn blaenoriaethu anghenion a gofynion dysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig yn y Gymraeg.

**2.4** Roedd y crewyr yn bryderus ynghylch y gallu i gynllunio'n hirdymor ac ynghylch sut y byddai eu hadnoddau'n cael eu gweld yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Pwysleisiwyd yr angen i osgoi dyblygu adnoddau presennol.

2.5 Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod defnyddioldeb Hwb fel ffynhonnell gyfanredol o adnoddau ar gyfer dysgwyr ac ysgolion yng Nghymru, ond nododd ymarferwyr, crewyr cynnwys, a rhieni a gofalwyr heriau o ran hygyrchedd y llwyfan, sy'n effeithio ar ei effeithiolrwydd.

2.6 Mae ymarferwyr fel arfer yn dibynnu ar gasgliad personol o adnoddau sydd wedi'u casglu dros amser o ffynonellau amrywiol ac mae'n well ganddynt adnoddau sy'n cael eu gwneud gan athrawon, sy'n tueddu i fod yn fwy perthnasol ac wedi'u haddasu i anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, mae gallu ymarferwyr i wneud eu hadnoddau eu hunain wedi'i gyfyngu'n ddifrifol gan ddiffyg amser â thâl i wneud hynny.

2.7 Canfu arolwg y diwydiant mai'r prif yrrwr sy'n penderfynu pa adnoddau sy'n cael eu creu yw adborth ar anghenion y sector addysg sy'n cael eu cyfathrebu y tu allan i sianeli Llywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, mae manylebau Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'r adnoddau addysg sy'n cael eu creu ar gyfer Cymru, yn ogystal â dadansoddiad y crewyr eu hunain o'r sector.

## 2. Argymhellion Cynnig Adnoddau Addysg Cymru

a. Blaenoriaethu cynhyrchu adnoddau Cymraeg a dwyieithog. Datblygu canllawiau ar gyfieithu, gofynion ar gyfer dysgwyr â lefelau amrywiol o gynefindra â'r iaith, a thafodieithoedd.
b. Ystyried a allai Adnodd hwyluso mynediad crewyr at gyfieithwyr ac awduron Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â ffynonellau cyllid perthnasol, i symleiddio'r broses o gynhyrchu adnoddau Cymraeg a dwyieithog.
c. Sicrhau bod gan Adnodd berthynas agos gyda Hwb. Blaenoriaethu sicrhau bod adnoddau'n hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddynt ar Hwb trwy chwilio haws a thagio gwell. Penderfynu sut y bydd adolygiad mewnol Hwb o adnoddau yn cyd-fynd â phroses sicrhau ansawdd ac achredu Adnodd ar ôl ei ddatblygu. Gallai archwiliad wedi'i alinio gan Adnodd o Hwb sicrhau bod adnoddau presennol yn pasio'r un gwiriadau ansawdd ag adnoddau'r dyfodol a gallai lywio cynllun comisiynu Adnodd – fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am adnoddau sylweddol a gallai, i ryw raddau, ailadrodd ymdrechion sydd eisoes yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru.

# 3. Cyfraniad Ymarferwyr mewn Datblygu, Comisiynu a Sicrhau Ansawdd Adnoddau Addysg yng Nghymru

**3.1** Mae crewyr cynnwys yn adrodd am ymgynghori a chyfathrebu uniongyrchol ag ymarferwyr fel eu prif ddull o ddeall angen y farchnad. Eto i gyd, er bod crewyr cynnwys yn sôn am ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymarferwyr fel arfer cyffredin, ychydig iawn o ran oedd gan lawer o'r ymarferwyr a oedd yn ymwneud â'r grwpiau ffocws â'r broses bresennol o gomisiynu adnoddau. Roedd gan lawer, yn enwedig ymarferwyr ADY, ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y dyfodol pe baent yn cael iawndal teg am eu hamser.

**3.2** Mae'n amlwg bod angen perthynas gref rhwng crewyr cynnwys a defnyddwyr eu deunyddiau yn y dyfodol. Rhaid i'r broses hon gynnwys ymarferwyr o gefndiroedd amrywiol ac ystod eang o brofiad, nid yn unig o'r ysgolion sy'n perfformio orau. Yr her yw cynnwys ymarferwyr heb amharu ar ddysgu, gydag awgrymiadau y gallai athrawon sydd wedi ymddeol yn ddiweddar a chyrff presennol megis CYDAG (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg) neu Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig ar gyfer ymarferwyr ADY ymgynghori a chydweithio ag Adnodd. Awgrymwyd ardystio cyfraniadau at ddatblygu adnoddau a sicrhau ansawdd, darparu gwobrau, a gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd gydag athrawon fel modd o fod yn rhan o'r prosesau hyn yn fwy deniadol i ymarferwyr.

**3.3** O ran rôl Adnodd yn y broses hon, gwnaeth ymarferwyr bwyso ar Adnodd i ymgysylltu ag ymarferwyr o'r cychwyn cyntaf ac yn gyson dros amser. Gofynnodd ymarferwyr am broses hygyrch gydag opsiynau digidol a phersonol ar gyfer ymgysylltu, sianel gyfathrebu agored i ofyn cwestiynau i Adnodd, yn ogystal â rhywfaint o hyfforddiant neu ymgysylltu ar y ffordd orau o ddefnyddio a chreu adnoddau o dan y Cwricwlwm i Gymru. Roeddent hefyd am weld iawndal am eu cyfraniadau a mynegodd rhai ddiddordeb mewn swyddi llawn amser neu secondiad gydag Adnodd.

## 3. Argymhellion Cyfraniad Ymarferwyr

a. Penderfynu ar y dulliau gorau o gynnwys ymarferwyr a'u marchnata'n glir.
b. Digolledu ymarferwyr sy'n brin o amser i gymell eu cyfranogiad. Gallai hyn fod ar ffurf amser â thâl ar gyfer datblygu adnoddau, secondiadau i Adnodd, neu broses ffurfiol a chydnabyddedig lle mae cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd adnoddau addysg yn cyfrannu at nodau proffesiynol a CV.
c. Sicrhau bod systemau'n ymgysylltu â set amrywiol o ymarferwyr sydd â phrofiad o bynciau amrywiol. Yn ddelfrydol, eu cynnwys ar sail dreigl i sicrhau bod syniadau newydd yn cael eu chwistrellu i'r ystafell ddosbarth ac i osgoi tynnu adnoddau o safon o'r ystafelloedd dosbarth.
d. Manteisio ar gyfleoedd i symleiddio ei systemau adborth ymarferwyr gyda systemau crewyr cynnwys a chyhoeddwyr.
e. Ystyried sut i gasglu dadansoddeg ar sut mae ymarferwyr a defnyddwyr adnoddau'n ymateb i adnoddau mewn amser real (e.e., hyrwyddo mwy o ryngweithio ar Hwb neu gynnal fforwm i athrawon raddio adnoddau a churadu pecynnau o adnoddau, y gallai Adnodd eu hamlygu fel blogiau ar eu gwefan)
f. Penderfynu a ddylai adnoddau a grëwyd gan ymarferwyr gael eu tynnu i mewn i brosesau swyddogol. Ystyried cyfleoedd i hwyluso mwy o waith clwstwr, o bosibl drwy gynnwys consortia rhanbarthol, gan ganiatáu i Adnodd oruchwylio heb ychwanegu prosesau ychwanegol.

# 4. Comisiynu Adnoddau Addysg yng Nghymru

**4.1** Mae'r broses gomisiynu bresennol ar gyfer adnoddau addysg yn digwydd trwy sawl sianel wahanol ac fe'i hystyrir yn gymharol ddatgymalog ac ad-hoc. Mae'n cael ei hystyried yn rhy anhyblyg, gan atal cydweithio rhwng timau comisiynu Llywodraeth Cymru a chrewyr cynnwys.

**4.2** Mewn proses gomisiynu newydd, mae ymarferwyr yn gobeithio osgoi proses "o'r brig i'r bôn", gan anelu at un sy'n cael ei harwain yn fwy gan ymarferwyr. Amlinellodd crewyr cynnwys y blaenoriaethau canlynol yn fras:

- Deall sut y gall comisiynu newid yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru ac Adnodd.
- Cymryd rhan yn gynnar yn natblygiad y system hon.
- Nodi ffyrdd newydd i fusnesau Cymreig chwarae rhan fwy wrth gynhyrchu adnoddau. Maen nhw'n cefnogi ethos "gwnaed dros Gymru, yng Nghymru".
- System sy'n cefnogi cydweithio ymhlith crewyr yn well. Er enghraifft, byddai proses gomisiynu sy'n darparu digon o amser paratoi drwy dendro yn galluogi'r rhai sy'n creu cynnwys i gydweithio'n well, cyfuno cyllidebau, a chynnig rhywbeth mwy nag y gallent ei ddarparu'n unigol.
- Sicrhau bod yr adnoddau presennol yn parhau i fod ar gael ac yn hygyrch er mwyn caniatáu i adnoddau gael eu canolbwyntio ar fodloni anghenion y dyfodol yn hytrach na chreu adnoddau sy'n bodoli eisoes ond sy'n anodd eu canfod ar Hwb; mae sicrhau bod yr holl adnoddau a gynhyrchir ganddynt yn cael eu rhannu a'u defnyddio mewn gwirionedd yn rhan bwysig o sicrhau gwerth am arian.

**4.3** Yn y cyfamser, mae llawer o grewyr cynnwys yn symud tuag at ddarparu adnoddau mwy deinamig a digidol. Y tu hwnt i hyn, fodd bynnag, mae crewyr yn ei chael yn anodd comisiynu mewn meysydd arbenigol a chomisiynu adnoddau newydd yn rhagweithiol oherwydd dibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru. Soniodd darparwyr cynnwys am rewi mewn comisiynu yn y cyfnod cyn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan arwain at bryder nad oedd dysgwyr yn cael yr adnoddau cywir. Wrth i gynlluniau ddatblygu ac Adnodd dyfu, bydd yn bwysig sicrhau bod pob cynllun yn cael ei gyfleu i randdeiliaid cyn gynted â phosibl, a bod comisiynu'n ailddechrau'n gyflym.

**4.4** O ran y broses ei hun, mae crewyr cynnwys a chyhoeddwyr angen:

- Gwahoddiadau clir, wedi'u diffinio'n dda i dendro, gan gynnwys cyllidebau dangosol ac amlinelliad o'r math o adnoddau a geisir fel y gall crewyr cynnwys fod yn fwyaf effeithiol wrth ddylunio a darparu adnoddau ar gyfer eu cynigion.
- Proses dyfarnu tendr tryloyw a chynhwysol, gydag arbenigwyr pwnc yn ymwneud â'r ochr gomisiynu a dyfarnu.
- Arweinyddiaeth a chydlyniad strategol ehangach ar draws yr ecosystem adnoddau addysg – angen a ddiffinnir gan ystod o randdeiliaid.

**4.5** Ymhlith yr heriau allweddol a ragwelir wrth ddatblygu proses gomisiynu newydd a phontio rhwng prosesau presennol a newydd mae:

- Marchnata. Roedd crewyr cynnwys a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru yn teimlo'n gyffredinol y dylai'r grŵp arall fod yn atebol am adnoddau marchnata, ond galwodd llawer ar Hwb i dagio a chyflwyno gwybodaeth am adnoddau presennol yn gliriach mewn ffordd sy'n hawdd ei llywio.
- Osgoi dyblygu gyda chyrff comisiynu eraill.
- Rheoli disgwyliadau a bod yn glir yn eu cylch.
- Sicrhau bod ceisiadau am adnoddau'n berthnasol.
- Sicrhau bod adnoddau'n gynhwysol ac yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol.
- Cynhyrchu adnoddau dwyieithog gyda llai o grewyr Cymraeg eu hiaith a chyllideb debyg i wledydd eraill y DU sy'n cynhyrchu'n uniaith.
- Goresgyn heriau technegol sy'n ymwneud â pha mor gydnaws yw adnoddau â Hwb a rôl gynyddol deallusrwydd artiffisial wrth greu adnoddau.

**4.6** Er gwaethaf yr heriau hyn, rhaid i Adnodd fanteisio ar gyfleoedd i wella a symleiddio'r system, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd sy'n deillio o'i safle y tu allan i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Nid yw wedi'i rwymo gan reolau caffael Llywodraeth Cymru.
- Gall fod yn fwy hyblyg – a meddwl yn fwy hirdymor – yn y ffordd y mae'n comisiynu.
- Gall fod yn fwy strategol yn ei gynllun comisiynu, ei ddulliau o adnabod angen, a sut mae'n integreiddio arbenigedd pwnc.

**4.7** Bydd enw da Adnodd yn hollbwysig i'w lwyddiant. Yn y cyd-destun hwn, bydd gan y ffordd mae Adnodd yn diffinio ac yn cyflwyno ei hun fel sefydliad, a pha mor glir y caiff ei nodau eu cyfleu, oblygiadau pwysig i grewyr cynnwys a'r adnoddau a ddatblygir.

**4.8** Teimlai rhanddeiliaid y gallai Adnodd fanteisio ar ei safle i greu a hyrwyddo system sy'n:

- Mabwysiadu golwg gyfannol ar gomisiynu fel proses o nodi a chyflawni angen ochr yn ochr â blaenoriaethau penodol, gan gynnwys bylchau a meysydd o orgyflenwad yn y ddarpariaeth adnoddau bresennol, yn hytrach na thasg "gwaith papur" sy'n fwy tebygol o gael ei hynysu. Teimlai rhai y byddai hyn yn gofyn am archwiliad llawn o'r adnoddau presennol. Mae'n amlwg, fodd bynnag, y dylai adnoddau Cymraeg a digidol fod yn ddau faes blaenoriaeth.
- Darparu amserlen gomisiynu sydd wedi'i blaenoriaethu'n glir yn seiliedig ar dystiolaeth am gyrhaeddiad, ac sy'n sicrhau bod cyflenwad o adnoddau'n cael ei chreu a'i chymeradwyo i gefnogi cymwysterau diwygiedig o 2025.[1]

---

[1] https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/tgau-gwneud-i-gymru/

- Cydgysylltu'n agosach â'r BBC, CBAC, Cymwysterau Cymru, S4C, a Chymru Greadigol, yn enwedig yn gynnar yn y prosesau comisiynu, a datblygu prosesau cyfathrebu effeithiol i wneud y mwyaf o synergedd a'u hatal rhag comisiynu adnoddau tebyg. Gallai hyn arwain at amserlenni comisiynu mwy cyson, a gallai ganiatáu ar gyfer rhannu arbenigedd pwnc ar draws comisiynwyr.
- Buddsoddi yn nhalent greadigol Cymru drwy gyllid tymor hwy i gefnogi'r gwaith o greu a chryfhau cronfa dalent creu cynnwys yng Nghymru fel y gall y system creu cynnwys ymateb yn effeithiol i wahoddiadau i dendro.
- Comisiynu rhaglenni gwaith yn hytrach nag adnoddau ar wahân, gan ei alluogi o bosibl i fod yn gyflymach ac yn fwy hyblyg wrth gomisiynu ac yn llai adweithiol i angen brys.
- Cyfrif am yr angen am awduron, cyfieithwyr, arbenigwyr pwnc, a swyddogion sicrhau ansawdd Cymraeg eu hiaith mewn cyllidebau. Ystyried a allai Adnodd gomisiynu yn y Gymraeg yn gyntaf.
- Ystyried a datblygu polisi ynghylch rôl AI mewn adnoddau addysg, gan gynnwys ei oblygiadau ar gyfer darpariaeth Gymraeg, yn ogystal ag agwedd at faterion digidol fel gwasanaethau tanysgrifio.

## 4. Argymhellion Comisiynu

a. Pennu blaenoriaethau comisiynu trwy brosesau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion a chyfleu'r rhain yn glir.
b. Ystyried cynnig pecynnau comisiynu tymor hwy i alluogi crewyr cynnwys (yn enwedig crewyr llai, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru) i fuddsoddi'n well yn eu gweithluoedd, cynllunio ymlaen llaw, ac ymateb i dendrau.
c. Chwilio am arbenigedd yn dorfol a'i gynnwys ym mhrosesau Adnodd, gan gynnwys trwy gydberthnasau agos ac aliniad â chyrff comisiynu eraill.
d. Cynnig cyfleoedd ymgysylltu (e.e., cynhadledd flynyddol i drafod a chasglu adborth ar eu cynllun blynyddol a blaenoriaethau neu ddigwyddiadau strategol eraill).
e. Diffinio ac egluro cwmpas cylch gwaith Adnodd (e.e., awydd am "ailwampio" adnoddau presennol i ddiweddaru cynnwys neu amrywio'r bobl a'r perthnasoedd a gynrychiolir).

# 5. Sicrhau Ansawdd Adnoddau Addysg yng Nghymru

**5.1** Mae'r holl adnoddau sy'n cael eu huwchlwytho i Hwb yn destun adolygiad byr o fformatio, cysondeb, darllenadwyedd, a phriodoldeb oedran, ac mae tîm Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad llawn o'r holl adnoddau ar Hwb i'w halinio â'r Cwricwlwm i Gymru.

**5.2** Roedd adborth a dderbyniwyd ar y broses hon yn dangos, er bod y broses sicrhau ansawdd bresennol o fewn Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adnoddau'n addas i'r diben yn effeithiol, ei bod yn rhy anhyblyg. Nid yw chwaith yn gwirio yn erbyn set o anghenion a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o ran cwmpas y cynnwys. Nid yw'r broses bresennol yn cwmpasu adnoddau a rennir yn anffurfiol gan ymarferwyr, yn aml ar lefel clwstwr, ac fe'i hystyrir gan rai fel adnoddau sicrhau ansawdd nad ydynt wedi'u teilwra'n ddigonol i anghenion ymarferwyr.

**5.3** Mae crewyr cynnwys yn teimlo bod y broses sicrhau ansawdd (SA) o fewn Llywodraeth Cymru eisoes yn "drwyadl" ac yn pwysleisio bod ganddynt brosesau SA mewnol, felly ni ddylai proses Adnodd ddim ond dyblygu'r rhain na chreu mwy o "dâp coch." Byddai sicrhau bod y broses newydd yn symleiddio gofynion a llenwi ffurflenni o fudd i grewyr cynnwys.

**5.4** Byddai proses sicrhau ansawdd effeithiol ar gyfer Adnodd yn un sy'n cynnwys y canlynol:

- Set glir, syml, wedi'i chyfathrebu'n dda o safonau neu feini prawf sicrhau ansawdd i ddiffinio ffiniau ar gyfer crewyr cynnwys, gan gynnwys safonau technegol i sicrhau cydnawsedd ar bob math o ddyfeisiau; safonau pedagogaidd i sicrhau bod yr adnoddau'n dilyn model dysgu ac addysgu a gydnabyddir yn gyffredinol; a safonau ieithyddol sy'n caniatáu gwahanol lefelau o eirfa yn y Gymraeg a'r Saesneg – rhaid iddo gefnogi dull cyhoeddi "dwyieithog ar unwaith". Y prawf sylfaenol arall yw a yw adnodd yn cwrdd ag angen ac yn gwneud gwahaniaeth ymarferol i athrawon a dysgwyr. Gall fod yn ddefnyddiol ystyried meini prawf sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan gyrff comisiynu tebyg.
  - Mae'n bosibl y bydd angen gwerthuso'r meini prawf yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cefnogi cynhyrchu adnoddau o ansawdd gwell yn effeithiol.
- Gweithdrefnau wedi'u hamlinellu'n glir ar gyfer y broses gyfan o sicrhau ansawdd.
- Digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer anghenion gwahanol grewyr, mathau o adnoddau, a defnyddwyr terfynol, gan gynnwys dull cynhwysfawr o asesu a yw adnoddau'n bodloni anghenion dysgwyr ag ADY.

- Cyfraniad ymarferwyr. Roedd barn rhanddeiliaid yn amrywio ynghylch a oedd yn rhaid i ymarferwyr ymwneud yn uniongyrchol â phrofi'r holl adnoddau neu dim ond wrth ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd.
- Y gallu i sicrhau ansawdd cyfieithiadau ac yn ddelfrydol, galluogi adnoddau Cymraeg i gael profion darllenadwyedd ar gyfer dysgwyr ar wahanol lefelau o allu yn y Gymraeg.
- Systemau i sicrhau bod adnoddau (yn enwedig rhai digidol) yn gallu cael eu gwella'n barhaus a'u diweddaru i fod yn berthnasol dros eu cylch bywyd yn hytrach nag un sy'n defnyddio meddylfryd "cyhoeddi ac anghofio".
- Mecanwaith ar gyfer adborth amser real gan ymarferwyr a defnyddwyr terfynol adnoddau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi er mwyn hwyluso ymwybyddiaeth o ba adnoddau sydd angen eu diweddaru.

**5.5** Roedd cefnogaeth eang i broses sicrhau ansawdd sy'n arwain at achrediad Adnodd neu nod barcud ar adnoddau gyda sicrwydd ansawdd, yn enwedig gan ymatebwyr arolwg y diwydiant. Teimlwyd y gallai achrediad fod yn fuddiol i ddarparu cysondeb ac i hwyluso dewis adnoddau. Roedd y prif gwestiwn ynghylch hyn yn ymwneud â chost ac a ellid achredu adnoddau presennol yn ôl-weithredol. Byddai angen i achrediad – a thrwy estyniad, brand Adnodd – fod yn syml, yn weledol ac yn adnabyddadwy. Fel arwydd o ansawdd da ac aliniad â'r cwricwlwm newydd a chymwysterau diwygiedig, mae effeithiolrwydd yr achrediad yn dibynnu ar enw da Adnodd. Codwyd cwestiynau ynghylch a ddylai nod barcud gael ei weld fel ardystiad gan Lywodraeth Cymru neu bortreadu'r neges bod yr adnodd "gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr."

**5.6** Prif her Adnodd mewn SA fyddai datblygu proses symlach i gydlynu mewnbwn a chyfranogiad ymarferwyr, arbenigwyr pwnc, grwpiau trydydd sector, a gweithgorau eraill o fewn Llywodraeth Cymru, gan weithredu fel "dewin y tu ôl i'r llen" i sicrhau arbenigedd, a chaiff adnoddau eu bwydo i mewn i un broses sicrhau ansawdd. Bydd angen i'r broses hon sicrhau perthnasedd parhaus adnoddau addysg wrth i safonau a disgwyliadau newid.

**5.7** Gallai capasiti ac adnoddau o fewn tîm a chyllideb Adnodd fod yn arbennig o heriol o ystyried natur lafurus sicrhau ansawdd effeithiol, yn enwedig wrth gynnwys ymarferwyr. Gallai meini prawf cymhleth neu rai sydd wedi'u cyfathrebu'n wael arafu'r broses.

**5.8** Yn olaf, bydd meithrin ymddiriedaeth ym mhroses sicrhau ansawdd Adnodd yn hollbwysig, gan ddarparwyr cynnwys a defnyddwyr terfynol yr adnoddau. Fodd bynnag, mae'n rhaid rheoli'r disgwyliadau o ran faint o newid a ddaw yn sgil Adnodd, gan nad yw'n ceisio ailwampio'r system gyfan, nac eisiau i'r broses aros yn union yr un fath. Rhaid iddo allu esblygu gyda blaenoriaethau strategol a rhaid ymddiried ynddo i wneud hynny.

## 5. Argymhellion Sicrwydd Ansawdd

a. Gosod set o feini prawf cadarn, cynhwysfawr, wedi'u gwerthuso'n rheolaidd ar gyfer sicrhau ansawdd ac achredu, os yw'n berthnasol.
b. Egluro sut mae cyfrifoldeb am fframwaith SA yn wahanol i'r broses adolygu SA. Mae'n amlwg y bydd Adnodd yn datblygu'r fframwaith sy'n sail i'r broses SA, ond yn llai amlwg pwy fydd yn cynnal yr adolygiad o ddydd i ddydd o adnoddau ar gyfer ansawdd ac aliniad â'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer achrediad posibl.
c. Penderfynu a fydd Adnodd yn sicrhau ansawdd neu'n achredu unrhyw adnoddau presennol yn ôl-weithredol, a sut y gallai hyn effeithio ar ddewis a defnyddio adnoddau.
d. Manteisio ar gysylltiadau â sefydliadau trydydd sector a chyrff comisiynu eraill i harneisio eu harbenigedd pwnc a dealltwriaeth o anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.
e. Sicrhau bod system symlach ar gyfer cymell a chasglu mewnbwn arbenigol i wneud y broses yn fwy gwydn i newidiadau mewn personél.
f. Buddsoddi mewn adeiladu brand ac enw da Adnodd a meithrin ymddiriedaeth ynddo. Bydd unrhyw nod barcud neu achrediad yn dibynnu ar gryfder enw da Adnodd.

adnodd

yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

Adnodd.llyw.cymru / Adnodd.gov.wales

@adnodd